Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 07.12.2021

- Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

- This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

# COVID-19: 'Torri'r trosglwyddiad' – Lansio'r ymgyrch Diogelu Cymru ddiweddaraf

Mae cam diweddaraf ymgyrch Diogelu Cymru Llywodraeth Cymru wedi lansio o dan y thema 'torri'r trosglwyddiad' o coronafeirws. Mae'r ymgyrch yn canolbwyntio ar fasgiau wyneb, brechiadau, profion, a hunanynysu, a bydd hefyd yn cynnwys pwysigrwydd awyru a defnyddio profion llif unffordd cyn cymdeithasu. I ddarllen y datganiad yn llawn, ewch i:

https://llyw.cymru/torrir-trosglwyddiad-lansior-ymgyrch-diogelu-cymru-ddiweddaraf

Mae asedau digidol ar gael i gefnogi’r ymgyrch yma, ac ar gael ar:

https://bit.ly/TorriTrosglwyddiadKWSDisruptTransmission

# ARIANNU: Grant Gwella Eiddo Canol Tref newydd ar gael rŵan

Mae Cyngor Gwynedd wedi agor Grant Gwella Eiddo Canol Tref newydd. Mae grantiau ar gael i helpu busnesau lleol ar y stryd fawr i uwchraddio eu hadeiladau (hyd at £25,000 ar 70% o gyfanswm y gost) ac i berchnogion adeiladau diangen neu heb eu defnyddio ddigon ddatblygu eu cynlluniau ar gyfer y dyfodol (hyd at £10,000 ar 50% o cyfanswm y gost). Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://bit.ly/GrantGwellaEiddoCanolTrefi

Mae Cyngor Gwynedd hefyd yn darparu benthyciadau di-log i helpu i uwchraddio adeiladau canol tref. I ddysgu mwy, ewch i:

http://bit.ly/CronfaCanolTref

# CYFLE: Ymgyrch Siopa’n Lleol y Gaeaf

Mae Cyngor Gwynedd wedi lansio ymgyrch yn annog pobl lleol ac ymwelwyr i gefnogi ein busnesau lleol.Gallwch ymuno yn yr ymgyrch trwy ddefnyddio’r hashnod #PrynuLleol ac ymweld â:

- Facebook https://bit.ly/PrynuLleolGwyneddBuyLocal

- Twitter https://bit.ly/twitterprynulleolgwynedd

Fel rhan o’r ymgyrch, bydd siopwyr yn cael eu cyfeirio at gyfeirlyfr o siopau lleol a gwybodaeth lletygarwch ar:

https://bit.ly/prynulleol_2020

I ymuno â'r cyfeirlyfr, cysylltwch â:

twristiaeth@gwynedd.llyw.cymru

## DIGWYDDIAD: Arddangos Datrysiad SMART – Cipolwg ar ddeall data nifer yr ymwelwyr 9 Rhagfyr 2021

Fel rhan o brosiect Blwyddyn Trefi SMART, bydd yr Arddangosfa Datrys Trefi SMART diweddaraf am ddim yn cael ei gynnal ar 9 Rhagfyr 2021. Am fwy o wybodaeth, ac i gofrestru, ewch i:

https://bit.ly/3ossiFN

## ARIANNU: Cronfa Entrepreneuriaeth Canol Tref Busnes Cymru

Llongyfarchiadau i Jordan a Nick Williams ar fanteisio ar y Gronfa Entrepreneuriaeth Canol Tref Busnes Cymru a micro fenthyciad gan Fanc Datblygu Cymru i ddechrau eu busnes newydd: Xscape Bangor. I ddarllen eu stori, ewch i:

https://developmentbank.wales/cy/newyddion-digwyddiadau/angerdd-am-bosau-yn-ysbrydoli-menter-fusnes-newydd-brodyr-o-fangor

Mae Cronfa Entrepreneuriaeth Canol Tref Busnes Cymru ar gael ym Mangor i gefnogi busnesau newydd yng nghanol y ddinas. Mae hyd at £10,000 ar gael fesul ymgeisydd, am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://businesswales.gov.wales/cy/cronfa-entrepreneuriaeth-canol-tref-busnes-cymru

## CYFLOGAETH: Hysbysfyrddau swyddi gwag yng Ngwynedd

Mae gan menter Cyngor Gwynedd, Gwaith Gwynedd, 'Hysbysfwrdd swyddi gwag yng Ngwynedd' ar Facebook i helpu

cysylltu cyflogwyr gyda’r rhai sy’n chwilio am waith. Os ydych yn dymuno hyrwyddo unrhyw swyddi gwag, ewch i:

https://www.facebook.com/groups/1169426113501265/

Gall cyflogwyr hefyd gysylltu gyda Grŵp Llandrillo Menai (GLlM) sydd â hysbysfwrdd swyddi ar gyfer eu myfyrwyr, ewch i:

https://www.gllm.ac.uk/cy/employer-jobs-noticeboard

# CYFLOGAETH: Cymorth gan Busnes@LlandrilloMenai i fusnesau recriwtio prentisiaid

Mae’r Cynllun Cymhellion Cyflogwyr i Brentisiaid yn helpu busnesau i recriwtio prentisiaid. Gall busnesau hawlio hyd at £4,000 am bob prentis newydd maent yn eu cyflogi. Gall Busnes@LlandrilloMenai eich helpu gyda’r broses, boed i hysbysebu am brentis newydd neu i gofrestru’ch gweithwyr presennol ar y cynllun. Am fwy o wybodaeth, e-bostiwch:

busnes@gllm.ac.uk

Mae mwy o wybodaeth hefyd ar gael ar:

https://www.gllm.ac.uk/cy/busnes/entry-48409/find-an-apprentice

# BREXIT: Oriau Nadolig ar gyfer gwiriadau tollau ym Mhorthladd Caergybi

Mae’r oriau Nadolig ar gyfer gwiriadau tollau ym Mhorthladd Caergybi ar gael ar:

https://www.gov.uk/guidance/moving-goods-through-the-port-of-holyhead-with-an-ata-carnet.cy

# NEWYDDION: Ymestyn cyfnod cau Traphont Abermaw hyd at 29 Rhagfyr 2021

Mae Network Rail wedi cyhoeddi y bydd Traphont Abermaw yn parhau i fod ar gau hyd at 29 Rhagfyr 2021. Bydd y gwasanaeth bws yn lle'r trên yn parhau i weithredu rhwng gorsafoedd Pwllheli a Machynlleth, a phob gorsaf rhyngddynt. I gael mwy o wybodaeth, ewch i:

https://bit.ly/TraphontAbermawBarmouthViaduct2021

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

# Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

# Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

# Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

# Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

# FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

# Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru